# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2013** |
| Amser: | **09:12 – 10:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700007_02_07_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Helen Jones, Prif Ddeisebwr**<br>**Tony Alexander, Adfocad gyda'r Gymdeithas Alzheimers**<br>**Lisa Morgan, Hugh James, Cyfreithwyr** |
| Staff y Pwyllgor: | **Naomi Stocks (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins AC; bu Lindsay Whittle AC yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 P-04-432 Atal Recriwtio i'r Fyddin mewn Ysgolion

Bu Aelodau'n trafod y sesiwn dystiolaeth a gynhaliwyd ar 2 Mehefin. Cytunodd yr Aelodau:

- i ysgrifennu at y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn cael rhagor o wybodaeth am yr 'allbynnau' a ddymunir wrth ymgysylltu â phobl ifanc mewn ysgolion;

- i ymgysylltu ag Ysgol Uwchradd y Rhyl, naill ai drwy gynnal ymweliad neu drwy gymryd tystiolaeth fideo, a hynny er mwyn deall ymgysylltiad yr ysgol gyda'r lluoedd arfog; ac
- i ysgrifennu at Gyrfa Cymru, gan ofyn i'r sefydliad am wybodaeth am ba fathau eraill o gyflogwyr sy'n ymweld ag ysgolion.

## 3 Deisebau newydd

### 3.1P-04-493 Moratoriwm ar Gynlluniau Datblygu Lleol mewn Rhanbarthau Dinesig posibl

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio er mwyn ceisio ei farn arni.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 4.1P-04-462 Gwahardd codi baner y Deyrnas Unedig ar adeiladau swyddogol yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb yng ngoleuni bwriad y Llywodraeth i barhau i godi baner y Deyrnas Unedig.

### 4.2P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod drwy orfodi deddfwriaeth ar ddefnyddio microsglodion.

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i aros i'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi.

### 4.3P-04-399 Arferion lladd anifeiliaid

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gan ofyn iddo am amserlen ar gyfer trafod y mater hwn.

### 4.4P-04-433 Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gan ofyn iddo am amserlen ar gyfer trafod y mater hwn a chan nodi'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan y deisebydd.

### 4.5P-04-445 Achub ein cŵn a chathod yng Nghymru rhag cael eu lladd ar y ffyrdd

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gan nodi'r ffaith fod Companion Animal Welfare Council yn gefnogol o amcanion y ddeiseb ac yn gofyn iddo a fydd y mater hwn yn cael ei ystyried ymhellach.

### 4.6P-04-363 Cynllun i Wella Canol Tref Abergwaun

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at:

- Gonsortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru, gan ofyn iddo am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ar gynigion Abergwaun; a
- Chyngor Sir Penfro, gan nodi gohebiaeth Llywodraeth Cymru a chan annog y cyngor i ddatblygu'r gwaith hwn fel rhan o'r fframwaith adfywio newydd.

**4.7P-04-380 Dewch â'n bws yn ôl! Deiseb yn erbyn diddymu'r gwasanaethau bws o ddwyrain Llanbedr Pont Steffan, Cwm-ann a Phencarreg**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i'w chau yn sgîl y diffyg ymateb gan y deisebydd.

**4.8P-04-459 Cysylltiad rheilffordd uniongyrchol o Faes Awyr Caerdydd i ganol Caerdydd a gorllewin Cymru**

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ynghylch y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, gan ofyn iddi am y wybodaeth ddiweddaraf am ei hymateb i'r adroddiad gan y tasglu ar drafnidiaeth integredig yn ne ddwyrain Cymru.

**4.9P-04-417 Achubwch Draeth Morfa ac ataliwch Lwybrau Troed Cyhoeddus 92 a 93 rhag cau**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i'w chau yn sgîl y ffaith fod yr Arolygiaeth Gynllunio yn parhau i ystyried y mater hwn.

**4.10 P-04-423 Cartref Nyrsio Brooklands**

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Gyngor Sir Penfro, gan ofyn iddo a oes cynlluniau i ailgyflwyno cais cynllunio. Cytunwyd y byddai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael ei gynnwys yn yr ohebiaeth hon.

**4.11 P-04-473 Cymorth Ariannol ar gyfer yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ffermydd Gwynt**

Datganodd William Powell a Russell George fuddiant fel aelodau o Gyngor Sir Powys.

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Lywodraeth y DU ynghylch pryderon y deisebydd am gyllido'r ymchwiliad.

**4.12 P-04-440 Dywedwch 'Na' i werthu asedau Ysbyty Bronllys**

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Lleol Powys i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n berthnasol i Fronllys.

**4.13 P-04-471 Deddfwriaeth Orfodol i Sicrhau Bod Diffibrilwyr ar Gael Ym Mhob Man Cyhoeddus**

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau:

- i ysgrifennu at Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Sefydliad Prydeinig y Galon a phob bwrdd iechyd lleol, gan ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf

am y cynnydd a wnaed o ran adolygu'r ddarpariaeth o ddiffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus; ac
- i aros am yr ymatebion sydd eto i ddod i law.

### 4.14 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Bu'r Pwyllgor yn trafod gohebiaeth ar y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y rhanddeiliaid a ganlyn, gan geisio eu barn ar y mater hwn:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Action on Hearing Loss;
- Llywodraethwyr Cymru; a
- Chadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar faterion sy'n ymwneud â bod yn fyddar.

### 4.15 P-04-397 Cyflog Byw

Bu'r Pwyllgor yn trafod y ddeiseb, a chytunodd yr Aelodau i geisio ymateb gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

## 5 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi: Sesiwn Dystiolaeth

Atebodd Helen Jones, Tony Alexander a Lisa Morgan gwestiynau gan y Pwyllgor.